

Ysgol Gymunedol Trimsaran



'Gwnawn ein gorau glas'

Adroddiad y Llywodraethwyr i'r Rieni

2024-25



Corff Llywodraethol

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYMUNEDOL TRIMSARAN 108

<i>Math o Lywodraethwr</i>	<i>Enw</i>	<i>DyddiadTerfynnol</i>
Awdurdod Lleol	Cyng. Mrs K. Broom (Cadeirydd)	03.09.2025
Awdurdod Lleol	Ms M. Arthur	31.08.2026
Awdurdod Lleol	Mr R. Sully	03.11.2027
Pennaeth	Mr S. Jones	
Cymuned	Mr R. John-Howes	27.03.2026
Cymuned	Ms A. Nobel	06.03.2028
Cymuned	Mrs G. Nicholas	30.09.2025
Cymuned Ychwanegol	Cyng. Mrs A. Davies	03.06.2027
Rhiant	Mrs A. Daniels	22.03.2026
Rhiant	Mrs G. Davies	25.05.2026
Rhiant	Mr I. Jones	06.03.2027
Rhiant	Mrs H. Raine-Diplock (Is-Gadeirydd)	23.11.2025
Staff	Mrs C. Emanuel-Evans	18.05.2026
Athrawon	Miss C. Roberts	19.11.2029

Clerc i'r Llywodraethwyr:

Ms L. Bridgewater, c/o Ysgol Gymunedol Trimsaran, Heol Waunyclun, Trimsaran, Cydweli, Sir Gaerfyrddin, SA17 4BE.

Ffôn: 01554 810670

Ebost: admin@trimsaran.ysgolccc.cymru

Llythyr Cadeirydd y Llywodraethwyr

Annwyl Rieni a Chefnogwyr Ysgol Gymunedol Trimsaran,

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un brysur a llwyddiannus i'r ysgol. Rydym yn arbennig o falch o'r adroddiad ardderchog a dderbyniwyd gan Estyn yn gynharach eleni, gan gydnabod gwaith caled ac ymroddiad ein staff a'n disgyblion.

Mae ein plant yn hapus, ac rydym yn gweld gwelliant graddol yn y presenoldeb, maes sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn roedd llwyddiant y prosiect Bocs Bwyd, ynghyd â chyfranogiad y disgyblion wrth dyfu a gwerthu llysiau. Mae'r gweithgareddau hyn wedi rhoi profiadau bywyd gwerthfawr i'n dysgwyr ac wedi cyfoethogi eu haddysg.

Cafodd Blwyddyn 5/6 daith gofiadwy i Langrannog, ac fe ddaethom â'r flwyddyn academiaidd i ben ar nodyn uchel gyda sioe ddiwedd y flwyddyn wych.

Un o'r heriau parhaus sydd gennym yw gwella presenoldeb ymhellach er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl y cyfle i gyflawni eu potensial llawn. Fel corff llywodraethu, rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gefnogaeth barhaus rhieni a chymuned ehangach Trimsaran wrth i ni weithio tuag at y nod hwn.

Rydym yn edrych ymlaen at ddathlu 150 mlynedd i'r ysgol eleni, digwyddiad pwysig i'r gymuned i gyd.

Yn gywir,

Cyng. Mrs K. Broom
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Ysgol

Mae Ysgol Gymunedol Trimsaran yn ysgol gyfrwng Cymraeg. Caiff plant eu trochi yn yr iaith Gymraeg o'u diwrnod cyntaf yn y Meithrin. Prif iaith y cyfarwyddyd ar draws y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yw Cymraeg. Fodd bynnag, dysgir Saesneg mewn gwersi yn C.A.2. ac mae pwyslais ar ddwyieithrwydd yn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni safonau uchel yn y ddwy iaith erbyn diwedd C.A.2.

Mae'r Pennaeth a'r Uwch Dîm yn cyfarfod â darpar rieni cyn i'w plant ddechrau gan esbonio manteision dwyieithrwydd. Caiff y neges hon ei haildrodd gan yr holl staff addysgu mewn cyfarfodydd rhieni ayb.



Mae gwaith cartref yn cael ei ddsbarthu ar ddydd lau i'w ddychwelyd ar ddydd Llun sy'n cynnwys tasgau darllen, cardiau trafod, sillafu a thablau amser.

Nid oes cysylltiad ffurfiol rhwng Ysgol Gymunedol Trimsaran ac ysgol uwchradd. Gall rhieni wneud cais ar gyfer unrhyw ysgol uwchradd yn y Sir. Mae'r cais yn seiliedig ar eich cyfeiriad cartref ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd. Trefnir diwrnodau blasu yn Ysgol y Strade gan mai hon yw'r ysgol y mae mwyafrif o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn trosglwyddo iddi, ond byddem yn argymhell rhieni i gysylltu â'r ysgol y dymunant wneud cais amdani. Y llynedd derbyniodd ddisgyblion oedd yn dymuno parhau ag addysg Gymraeg hefyd leoedd yn Ysgol Maes y Gwendraeth. Trefnir gweithgareddau ar y cyd trwy gydol Blwyddyn 5 a 6 a chynhelir nosweithiau rhieni fel bod y pontio mor llyfn â phosibl.



Mae'r disgyblion yn dilyn cwricwlwm thematig. Trefnir a chynllunir themâu yn ofalus ar gyfer pob ystod oedran gan sicrhau sylw cyflawn i'r cwricwlwm.

Mae grwpiau ymyrraeth yn cael eu ffurfio ar sail profion a weinyddir ac Aseidiadau Athrawon. Mae disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn meysydd penodol yn cael mynediad i'n darpariaeth ddysgu gyffredinol sy'n cynnwys ymyrraeth 'ChATT', llythrennedd, rhifedd, chwarae positif ac ELSA. Mae cynnydd yr holl ddysgwyr yn cael ei olrhain yn rheolaidd ac yn ofalus gan ddefnyddio Building Blocks a systemau olrhain ysgolion.

Mae gan yr ysgol ddwy Gynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol hyfforddedig (ELSA). Maent yn cael hyfforddiant arbennig gan seicolegwyr addysg i gefnogi'r datblygiad emosiynol plant a phobl ifanc yn yr ysgol. Mae gan ELSAs goruchwyliaeth broffesiynol gan seicolegwyr addysg i'w helpu yn eu gwaith.


Mae'r ysgol yn parhau â'i hymdrech i atgyfnerthu pwysigrwydd materion amgylchedd. Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cwrdd yn rheolaidd ac yn edrych am ffyrdd y gall arferion ecologyfeillgar ddod yn rhan o fywyd yr ysgol. Mae llais y disgybl yn bwysig ac maen nhw wedi bod yn casglu gwybodaeth ac yn gweithredu ar eu syniadau.



Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd trwy sticeri a roddir i ddisgyblion sydd â bocsys bwyd iach. Daw'r disgyblion a'u ffrwyth eu hunain o'r cartref. Mae bwyta'n iach yn rhan o'r cwricwlwm Iechyd a Lles.

Ymdrechir i gynyddu presenoldeb ac mae absenoldebau parhaus yn cael eu targedu a'u hannog i fod yn brydlon.

Mae ymdrech i wella'r defnydd o Gymraeg yn yr ysgol yn parhau. Mae ein menter i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol yn parhau i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ogystal â'r tu mewn.



Mae'r tîm Cynllun Gwên wedi darparu brwsys a phast dannedd i'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac mae brwsio dannedd dyddiol yn parhau yn yr ysgol.

Cysylltiadau Cymunedol

Mae'r corff llywodraethol yn annog rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol i greu cysylltiadau â'r ysgol. Mae busnesau lleol yn cefnogi'r ysgol gyda chodi arian ac yn cefnogi dysgu disgyblion trwy ganiatáu i ddisgyblion ymweld â nhw. Mae'r siopau lleol yn rhoi gwobrau neu eitemau yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau ysgol. Mae Swyddog Heddlu Cymunedol yr ysgol yn cynnal ystod eang o weithdai i ddisgyblion ar 'ddiogelwch rhyngryw', 'cadw'n ddiogel' a 'chamdefnyddio cyffuriau ac alcohol'.

Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 5 ag Amgueddfa Abergwili a Toby Carvery i ddsygu mwy am eu thema 'mae coginio yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd'.

Mae Cynllun Gwên yn ymweld â'r Cyfnod Sylfaen ac mae brwsio dannedd dyddiol yn digwydd.

Ymwelodd Blwyddyn 4 a 5 â Chyngerdd Taith Gerddoriaeth Beripatetig.



Cymerodd disgyblion Blwyddyn 6 rhan yn 'Cwis Dim Clem' yn erbyn ysgolion lleol a drefnwyd gan 'Menter Cwm Gwendraeth'.

Derbyniodd y Derbyn i Flwyddyn 4 chwistrell fflw.

Derbyniodd Blynnyddoedd 5/6 wersi ar yr Hen Destament a'r Testament Newydd gan Alison Treharne o Bible Explorers.

Aeth disgyblion Blwyddyn 1 i Fferm Pnyfodau Fawr i gasglu pwmpenni i wneud Cawl Pwmpen yn yr ysgol.

Cynhaliwyd bore coffi yn yr ysgol a pherfformiodd y disgyblion i rieni/ ymwelwyr i godi arian at wahanol elusennau.

Plannodd y Cyngor Eco blanhigion te gyda Mari Arthur – TeTrim Teas.

Daeth Nyrs yr Ysgol i weld disgyblion y Derbyn am asesiad uchder a phwysau a hefyd ar gyfer sgrinio Blwyddyn 1.

Cymerodd y disgyblion ran yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol y Strade.

Ymwelodd Blynyddoedd 2-6 ag Eglwys Llandyri ar gyfer Gwasanaeth Diolchgarwch a Gwasanaeth Cristingl.

Cafodd côr yr ysgol wahoddiad i ganu yn Ffair Nadolig Plas-y-Sarn ac Asda, Llanelli.



Mae Kerbcraft, menter gan y Cynulliad Cenedlaethol, wedi gweithio gyda Blwyddyn 2 i drafod diogelwch ar y ffordd.

Gweithiodd Technocamps gyda Blynyddoedd 1-6 yn yr ysgol.

Aeth Blwyddyn 4, 5 and 6 i Barc Gwledig Penbre am sesiwn tobogan a thiwbio.



Mae Blynyddoedd 4 wedi cymryd rhan mewn sesiynau coginio yn yrysgol gyda 'Cegin y Bobl'.

Ymwelodd Blwyddyn 5 a 6 â Llangrannog am 4 noson a chymryd rhan mewn amryw o weithgareddau, rhedeg ceffylau, nofio, beicio cwad, sgïo ac ati.

Blynyddoedd 1-3 – Noson Gwasanaeth Carolau yn yr ysgol.

Gwahoddodd disgyblion Blwyddyn 5 eu rhieni i'r ysgol am ginio Nadolig a wnaed gan y disgyblion.

Derbyniodd y disgyblion wasanaeth gyda Paul a Delia ar Brosiect Luhimba.



Aeth Blwyddyn 5 i Lyfrgell Llanelli.

Ymwelodd Blwyddyn 2 â'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol i ddysgu am Stori Blodeuwedd.

Ymwelodd y Ficer Suzy Bale â'r ysgol a chynhaliodd wasanaeth Pasg i'r disgyblion.

Ymwelodd Blwyddyn 4 â Llyn Llech Owain.

Gwahoddwyd côr yr ysgol i berfformio mewn dathliad 80fed Diwrnod VE yn Neuadd Porth Tywyn ac Wythnos y Lluoedd Arfog yn Neuadd Gymunedol Pen-bre.

Ymwelodd Blynyddoedd 3-6 â Theatr Ffwrnes i weld cynhyrchiad Coleg Sir Gâr o 'Sister Act'.

Bydd Blynyddoedd 1-6 yn perfformio sioe 'Chwilio'r Chwedl' yng Nghanolfan Selwyn Samuel.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae dau ddisgybl â datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol a wyth disgybl â Chynllun Datblygu Unigol. Cyflogir cynorthwyr dysgu i gefnogi tua 12 o ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn derbyn ymyrraeth sydd y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan ddarpariaeth gyffredinol.

Mae cyfarfodydd Cynllunio Datblygiad Unigol wedi eu cynnal i drafod nifer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae asiantaethau cysylltiedig yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn cynllunio strategaethau ar gyfer gwella.

Mae rhaglenni megis 'Read Write Inc', 'Hwb Ymlaen' a 'chwarae positif' yn cael eu defnyddio. Cynhelir grwpiau ymyrraeth i helpu disgyblion â rhifedd a llythrennedd o Flynyddoedd 2-6. Cyflwynir 'Yr Wyddor Stumie' a 'Tric a Chlic' yn y Meithrin ac fe'u defnyddir yn y Cyfnod Sylfaen cyfan i bob disgybl. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymyrraeth darllen wedi digwydd o fewn yr ystafell ddosbarth.

Darperir cefnogaeth gan dîm o Gynorthwyr Addysgu a arweinir gan ein Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Catrin Roberts.

Gall plant dderbyn eu cefnogaeth naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu mewn ardaloedd addysgu arbennig y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae gan ddisgyblion fynediad llawn i adnoddau'r ysgol ac mae'r ysgol yn cadw at y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Chwaraeon a Champau Eraill

Cynhelir Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol yn wythnosol gyda Miss Roberts a Mr Dafydd.

Mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn sesiynau chwaraeon yn yr ysgol gan Actif Sir Gâr.

Mynychodd bedwar disgybl o Flwyddyn 6 hyfforddiant ar gyfer Llysgenhadon Ifanc Efydd a drefnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r cwrs yn eu hysbrydoli i fod yn arweinwyr ac yn fodelau rôl trwy Chwaraeon fel y gallant ddylanwadu ar eraill i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Mae Blynnyddoedd 2-6 wedi derbyn sesiynau criced yn yr ysgol.

Cymerodd Blwyddyn 5/6 rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed yn Ysgol Penrhos.

Cymerodd Blwyddyn 5/6 ran mewn Gŵyl Cwpan Rygbi'r Byd yng Ngholeg Sir Gâr.



Ymwelodd blwyddyn 5/6 ag Ysgol Llangennech ar gyfer gŵyl gyfeillgar o bêl-rwyd a rygbi.

Cystadlodd Blynyddoedd 5/6 mewn cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llanelli.

Bu Blynyddoedd 3/4 yn cymryd rhan mewn gŵyl rygbi yn Ysgol Penrhos.

Cynhelir Clwb Chwaraeon wythnosol bob dydd Llun a drefnir gan yr Urdd ar gyfer Blynyddoedd 3-6.

Bu Blwyddyn 3/4 a 5/6 yn cymryd rhan mewn twrnament Rygbi'r Urdd yn Nhregib, Llandeilo.

Mae disgyblion Blwyddyn 1 wedi cymryd rhan mewn sesiwn sgiliau hoci.

Mae Blwyddyn 3 a 4 wedi derbyn cwrs nofio dwys tair wythnos yng Nghanolfan Hamdden Llanelli.

Derbyniodd disgyblion yr Iau sesiynau sgiliau rygbi gyda Darcy Thomas.

Cystadlodd Blynyddoedd 3/4 a 5/6 mewn twrnament pêl-droed yr Urdd yn Nhregib.

Ymwelodd Blwyddyn 2 â Chanolfan Hamdden Llanelli ar gyfer sesiwn aml-sgiliau.



Cymerodd Blwyddyn 3/4 ran mewn Gŵyl Rygbi TAG ym Mharc y Scarlets.

Mabolgampau'r Ysgol.

Cymerodd Blynyddoedd 5/6 ran mewn gêm Rygbi a Phêl-rwyd gyfeillgar yn yr ysgol gydag Ysgolion Ffwrnais a Llangennech.

Cymerodd Blynyddoedd 3/4 a 5/6 ran mewn Gŵyl Rygbi yn Stebonheath.

Cystadlodd y Meithrin a'r Derbyn mewn cystadleuaeth Chwaraeon ym Mharc y Scarlets a drefnwyd gan Fenter Cwm Gwendraeth.

Mae disgyblion Blynyddoedd 3-6 wedi cystadlu mewn Cystadleuaeth Athletau'r Urdd yng Nghaerfyrddin.



Darparu Cyfleusterau Toiledau

Mae toiledau ym mhob un o'r pedwar dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen.

Ar y llawr cyntaf, mae toiledau Cyfnod Allweddol 2 wedi'u lleoli yn ganolog.

Darperir dŵr poeth a sebon hylif a di-heintydd dwylo i bob toiled. Caiff rholiau toiled a thywelion llaw eu darparu bob dydd. Mae sychwyr llaw ym mhob toiled.

Absenoldebau Awdurdodedig ac Anawdurdodedig

Presenoldeb am y flwyddyn academaidd 2024-2025 oedd 92.07%.

Os bydd presenoldeb unrhyw blentyn yn gostwng o dan 80% byddwn yn gorfod cysylltu â Swyddog Lles y Sir.

Os yw eich plentyn yn absennol a fydddech mor garedig a chysylltu â'r ysgol drwy ffôn neu lythyr neu bydd absenoldeb eich plentyn yn cael ei ystyried yn anawdurdodedig.

Mae'r ystadegau canlynol yn dangos y nifer o absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig fel canran o'r cyfanswm posibl yn y tymor.

TYMOR	AWDURDODEDIG	ANAWDURDODEDIG
HYDREF 2024	4.73%	3.44%
GWANWYN 2025	3.52%	4.05%
HAF 2025	5.47%	4.62%

Cais. Mae nifer sylweddol o blant yn cyrraedd yn hwyr ar ddechrau diwrnod ysgol. Mae'r sefyllfa yma'n anfanteisiol iddynt ac mae'n ymyrryd ar addysg gweddill y plant. A fydddech mor garedig a gwneud pob ymdrech i sicrhau fod eich plentyn/plant yn cyrraedd ar amser yn y bore gan fod hyn yn datblygu arfer dda a fydd o fantais iddyn nhw nawr ac yn y dyfodol.

Mae presenoldeb ysgol rheolaidd yn hanfodol a gall colli ysgol gael effaith arwyddocaol ar gyflawniad dros gyfnod o flwyddyn fel y nodir isod:

Presenoldeb 95-100%	Y cyfle gorau o lwyddiant	Mae' ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu.
Presenoldeb 90-95%	Wedi colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu	Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i' ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith.
Presenoldeb 85-90%	Wedi colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu	Gallai' ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrthyh i ddal i fyny â gwaith.
Presenoldeb 80-85%	Wedi colli o leiaf 5½ wythnos o ddysgu	Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu.
Presenoldeb islaw 80%	Wedi colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu	Mae' ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.

Tymhorau a Gwyliau Ysgol: 2024-2026

Hydref 2024	Dydd Mawrth 3ydd Medi	Dydd Llun 28ain Hydref - Dydd Gwener 1af Tachwedd	Dydd Gwener 20fed Rhagfyr
Gwanwyn 2025	Dydd Llun 6ed Ionawr	Dydd Llun 24ain Chwefror - Dydd Gwener 28ain Chwefror	Dydd Gwener 11eg Ebrill
Haf 2025	Dydd Llun 28ain Ebrill	Dydd Llun 26ain Mai - Dydd Gwener 30ain Mai	Dydd Llun 21ain Gorffennaf
Hydref 2025	Dydd Mawrth 2ail Medi	Dydd Llun 27ain Hydref - Dydd Gwener 31ain Hydref	Dydd Gwener 19eg Rhagfyr
Gwanwyn 2026	Dydd Llun 5ed Ionawr	Dydd Llun 16eg Chwefror - Dydd Gwener 20fed Chwefror	Dydd Gwener 27ain Mawrth
Haf 2026	Dydd Llun 13eg Ebrill	Dydd Llun 25ain Mai - Dydd Gwener 29ain Mai	Dydd Llun 20fed Gorffennaf

Dyddiau HMS Penodol

- ✓ Dydd Llun 2il Medi 2024
- ✓ Dydd Llun 1af Medi 2025

Gwener y Groglith

- ✓ 18fed Ebrill 2025
- ✓ 3ydd Ebrill 2026

Gŵyl Fai

- ✓ 5ed Mai 2025
- ✓ 4ydd Mai 2026

Amserlen Cyfnod Sylfaen

Sesiwn Bore	Cinio	Sesiwn Prynhawn
Meithrin 08:45-11:30	11.30-12:30	12:30-15:00
Derbyn - Blwyddyn 2 08:45-12:00	12:00-13:15	13:15-15:00

Amserlen Cyfnod Allweddol 2

Sesiwn Bore	Cinio	Sesiwn Prynhawn
Blwyddyn 3-6 08:45-12:30	12:30-13:15	13:15-15:10

Datganiad Gwariant

PERFFORMIAD ARIANNOL 2024/25 Ysgol Gymunedol Trimsaran

2175

Trimsaran

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol
terfynol eich ysgol ar gyfer 2024/25.

Please see below a summary of your
school's final outturn position for 2024/25.

£

Gwariant Net 2024/25	993,088	Net Expenditure 2024/25
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2024/25	-945,131	Formula Funding Allocation 2024/25
Arian Wrth Gefn a Ddysgwyd Ymlaen o 2023/24	<u>-195,222</u>	Surplus Brought Forward from 2023/24
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2025/26	<u>-147,265</u>	Surplus Carried Forward to 2025/26